


Meini'r Orsedd, Parc Romilly

Ffotograff (H) Cyngor Sir Bro Morgannwg


Melin Lifio Cwm Cidi

Ffotograff (H) Cyngor Sir Bro Morgannwg

## LLEOLIAD Y DAITH GERDDED MEWN PERTHYNAS Â LLWYBR TREFTADAETH Y MILENIWM VALEWAYS




Mae Llwybr Treftadaeth y Mileniwm Valeways yn ymestyn am fwy na 100 cilomedr ac yn cwmpasu dros 6000 o flynyddoedd o hanes. Bydd yn ymlwybro drwy nifer o dirweddau prydferth iawn. O ben gogleddol y llwybr, mae golygfeydd ar draws holl ardal Blaenau Morgannwg, ac yn y de bydd y llwybr yn dilyn arfordir clogwynog trawiadol.

Mae'r Llwybr yn ymrannu'n 16 o ddarnau sy'n hawdd eu dilyn a gellwch gerdded pob un ohonynt mewn ychydig o oriau'n unig. Mae'r tir o gwmpas yn amrywiol, yn drawiadol yn aml ac yn llawn olion hanesyddol.

Os nad ydych erioed wedi ymweld â'r rhan hon o Gymru, byddwch wrth eich bodd yn cerdded drwy'r tiroedd isel ffrwythlon sy'n ffinio â'r Arfordir Treftadaeth godidog a'i draethau hardd. Mae'r llwybr yn cynnwys llawer o nodweddion hanesyddol diddorol dros ben sy'n amrywio o siambrau claddu cynhanesyddol i gestyll, eglwysi a phlastai mawreddog.

Mae Valeways wedi cyhoeddi teithlyfr Llwybr Treftadaeth y Mileniwm. Mae'r llyfr lliwgar hwn yn disgrifio 16 rhan y daith gerdded ac yn cael ei gyflwyno mewn pecyn sydd hefyd yn cynnwys 16 o fapiau A3 cyfatebol. Cewch ei brynu oddi wrth Valeways am £8.49 sy'n cynnwys cludiant a phacio.


Safle Rhufeinig Glan-y-Môr

Ffotograff (H) Cyngor Sir Bro Morgannwg



Ffotograff (H) G.Woosnam

## NODWEDDION Y DAITH GERDDED

- Parc Romilly
- Meini'r Orsedd
- Castell y Barri
- Melin Lifio Cwm Cidi
- Traphont y Rheilffordd
- Y Grisiau Aur
- Fila Rufeinig


Bordhwylio ym Mhorthceri

Ffotograff (H) Cyngor Sir Bro Morgannwg

## DILYNWCH GÔD Y CERDDWYR

- Gwyliwch rhag tân bob amser
- Clowch bob clwyd
- Cadwch gŵn o dan reolaeth
- Dilynwch lwybrau cyhoeddus wrth groesi tir ffermydd
- Croeswch ffensys, waliau a pherthi wrth glwydi a chamfeydd
- Ewch â'ch ysbwriel adref
- Gwarchodwch yr holl fywyd gwyllt, planhigion a choed

make tracks with Valeways

Elusen gofrestredig yw Valeways sy'n cydweithio â chymunedau lleol er mwyn ailagor hen lwybrau a chreu rhwydwaith o deithiau cerdded cylch difyr ar draws Bro Morgannwg sy'n cysylltu trefi a phentrefi â'r wlad o'u hamgylch a mannau o ddiddordeb. Rydym yn ddiolchgar iawn i'r holl wirfoddolwyr a roddodd yn hael o'u hamser er mwyn darparu'r daith gerdded hon i chi ei mwynhau.

VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG

Cyngor Cefn Gwlad Cymru Countryside Council for Wales

**Partneriaeth Valeways** - Diolch o galon i Gyngor Bro Morgannwg a Chyngor Cefn Gwlad Cymru am barhau i'n cefnogi.

Cefnogwyd gan Supported by

CRONFA LOTERI FAWR BIG LOTTERY FUND

cerdded llwybr iechyd walking the way to health

Environment Wales Amgylchedd Cymru

Valeways, Uned 7, Canolfan Mentrau Cymunedol y Barri, Heol Skomer, Y Barri CF62 9DA

Ffôn/ffacs: 01446 749000

E-bost: info@valeways.org.uk

Gwefan: http//www.valeways.org.uk

Elusen Gofrestredig Rhif 1062031 Cwmni Cofrestredig Rhif 333088

*Taith Gerdded 4, Y Barri*

# Coetir, Parcdir ac Arfordir

Pellter: 5 milltir a hanner


Cwm Cidi

make tracks with Valeways



Castell y Barri

Ffotograff (H) Cyngor Sir Bro Morgannwg


*Taith Gerdded 4, Y Barri*

# Coetir, Parcdir ac Arfordir

**Tro drwy Goetir, Parcdir ac ar hyd yr Arfordir er mwyn cael cipolwg ar orffennol pell y Barri.**

**Pellter** Pum milltir a hanner.
**Map** Map Ordnans Explorer 151 Caerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr.
**Y Dref Agosaf** Y Barri, Bro Morgannwg.
**Parcio** Y Cnap - ar y Promenâd ac ym Maes Parcio Bron y Môr a Pharc Porthceri.
**Trafnidiaeth Gyhoeddus** Bysiau i'r Cnap a Heol Pontypridd (Llwybr Nant Talwg) sy'n cychwyn yn Millwood.
**Bwyd a Diod** Mae caffis ar y Cnap ac ym Mharc Porthceri.
**Toiledau** Y Cnap a Pharc Porthceri.

**MAN CYCHWYN** Maes parcio'r Cnap, y Barri.







Ffotograff (H) Cyngor Sir Bro Morgannwg

## Y LLWYBR

Ⓒ Gan gychwyn ym maes parcio'r Cnap, cerddwch ar lan y môr i gyfeiriad y de-ddwyrain at Benrhyn y Cnap Oer. Ewch yn eich blaen o gwmpas y pentir glaswelltog, a chewch olygfeydd bendigedig ar draws Watch House Bay a Harbwr y Barri cyn belled ag Ynys y Barri. Cerddwch ymlaen heibio i Orsaf Gwylwyr y Glannau at y traeth a'r Tŵr Gwylio a'r Orsaf Rocedi. Yna trowch i'r chwith wrth ymyl y 'Beachcomber' ac yn ôl i'r Gerddi a cherddwch i ben pellaf y gerddi gan gadw'r Llyn a'r nant sy'n llifo iddo ar eich ochr chwith.

Croeswch yr heol o dan bont y rheilffordd i Barc Romilly ❶ a dilynwch y llwybr i fyny'r rhiw i'r dde i'r gysgodfa nes i chi gyrraedd allanfa'r parc gyferbyn â meini'r Orsedd ❷. Dringwch y rhiw ychydig ymhellach at Gastell y Barri ❸ yna trowch i'r dde ac ewch i fyny Heol y Parc ac i mewn i Barc Gwledig Porthceri.

Cerddwch i lawr yr heol am ryw 200 llath ac i lawr y grisiau ar y dde i'r goedwig a chroeswch y bompren yng Nghwm Barri.

Trowch i'r dde a dilynwch y llwybr troed sy'n arwain o Borthceri i Heol Salisbury. Trowch i'r chwith ac i'r chwith unwaith eto i Heol Pontypridd (B4266) ac os cerddwch dros y bryn heibio i'r goleuadau traffig a chymryd y troad cyntaf ar y chwith sef Llwybr Nant Talwg, gwelwch lwybr troed yn union o'ch blaen sy'n arwain i Millwood.

Mwynhewch y daith i lawr y rhiw ysgafn drwy'r coed gan sylwi ar olion Melin Lifio Cwm Cidi ❹ ar y chwith yn union cyn i chi ymadael â'r Goedwig. Cerddwch o dan bont y rheilffordd at y mannau picnic yn y borfa a'u croesi o'r dde i'r chwith, a chewch ymuno â'r llwybr unwaith eto'n y gornel bellach wrth ymyl y Llain Bytio.

Pan ddaw Traphont y Rheilffordd ❺ i'r golwg trowch i gyfeiriad y môr, yna i'r chwith a chroeswch y bompren er mwyn cael dringo'r Grisiau Aur serth ❻ at Bull Cliff. Os cerddwch gydag ymyl y clogwyn, cewch fwynhau golygfeydd bendigedig ar draws Môr Hafren cyn belled ag arfordir Gwlad yr Haf.

Ar ôl cyrraedd pen y clogwyn ewch i lawr y grisiau at Faes Parcio'r Cnap. Mae olion Fila Rufeinig ryw ychydig ymhellach i fyny o'r maes parcio ❼.




## LLEODD O DDIDDORDEB

**❶ Parc Romilly**
Dolydd Stad Romilly a dirluniwyd yn ystod y blynyddoedd ar ôl i'r Cyngor brynu'r tir ym 1896.

**❷ Meini'r Orsedd**
Daeth y rhain o chwarel Tregatwg ac fe'u gosodwyd er mwyn nodi safle Eisteddfod Genedlaethol Cymru 1920.

**❸ Castell y Barri**
Meddiannodd teulu Du Barri'r Castell hwn ar ôl i Forgannwg gael ei goresgyn yn ystod yr unfed ganrif ar ddeg.

Ar ôl cyfnod cythryblus, cryfhawyd yr adeilad yn ystod y bedwaredd ganrif ar ddeg gan ychwanegu Neuadd a Thŷ Porth ato. Ym 1349 trosglwyddwyd y Castell i deulu St John o Ffwl-y-mwn.

Ni wyddom fawr ddim am ei hanes yn ystod yr Oesoedd Canol, ond erbyn Oes Elisabeth yr oedd wedi dadfeilio.

**❹ Melin Lifio Cwm Cidi**
Adeiladwyd y felin hon gan Stad Romilly tua 1835, ac ar droad yr 20fed ganrif yr oedd efail a siop saer olwynion yn y cyffiniau.

**❺ Traphont y Rheilffordd**
Agorwyd y draphont ym 1897 ond am fod y tir yn suddo, bu'n rhaid ei chau yn ystod y flwyddyn ddilynol. Cafodd ei hailagor ym1900.

**❻ Y Grisiau Aur**
Mae sôn i forleidr gladdu trysor o ddarnau aur yn y fan hon, ond ni ddaeth dim i'r golwg erioed!

**❼ Fila Rufeinig**
Y farn, ar ôl astudio arian Rhufeinig a gafwyd yn y cyffiniau, yw bod y fila hon wedi'i hadeiladu ar ddiwedd y drydedd ganrif OC ar gyfer pwysigion a ddeuai i'r ardal.